# Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant Community Council

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
**E bost: clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com Ffôn: 07974795778**

5ed Mai 2026

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT** ***Nos Fawrth y 12fed o Fai am 7.00pm yn y Ganolfan, Abergynolwyn.***

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer.

Croeso ichwi gysylltu os ydych eisiau gair

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

…………………………………………………………………………………

## AGENDA

1.Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

Derbyn adroddiad blynyddol gan y Cadeirydd sy'n nodi blaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn 2025-26.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gyfarfu ar Nos Fawrth y 14eg o Ebrill – gweler yn atodol.

4**. Materion yn codi,**

a) **Materion Priffyrdd /llwybrau** – yn cynnwys cwyn am broblem ceir yn parcio o flaen tafarn y Railway a mynedfa Stryd Llanegryn.

b) **Safle treftadaeth/ Celf Cyhoeddus** – ystyried y diweddaraf yn dilyn ymweliad Hannah a Lucy 14.04.26.

c) **Stryd Tanybryn** – trafod y diweddaraf.

d) **Cynllun trafnidiaeth Cymunedol** – nodi'r diweddaraf

e) **Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned** – ystyried y syniadau i law ( amcangyfrif am offer cae chwarae drwy law Emrys)

f) **Coed i'w torri yn wal yr afon ger Heol y Dwr**

5**. Materion Cynllunio**

6.**Materion Cyllid.**

**a) Cyfrifon 2025-26** - sydd wedi eu paratoi a'u danfon i'r archwilydd mewnol, a bellach wedi eu dychwelyd. Hefyd claim y VAT wedi ei gwbwlhau. Y cyfan yn barod I'w trosglwyddo i Archwilio Cymru. Noder hefyd hysbysiad cyhoeddus I fynd ar y wefan a'r hysbysfwrdd.

b) Anfonebau i'w talu

c) Ceisiadau am arian

- Urdd – Cronfa cyfle i bawb

7.**Ethol Swyddogion 2026-27.**

a) Cadeirydd

b) Is- Gadeirydd

**8. Gwaith a Thelerau y Clerc 2026-27** (penderfynwyd yn cyfarfod 13.01.26)

9. **Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Llanfihangel y Pennant ar gyfer 2026/27.**

10. Derbyn ffurflenni **cofrestr buddiannau** wedi eu cwbwlhau gan Gynghorwyr. Hefyd mabwysiadu cod ymddygiad, cadarnhau rheoliadau arianol/sefydlog yr asesiad risg a'r cofrestr asedau (i'w dosbarthu ymlaenllaw neu ar ein gwefan) Noder hefyd adolygiad or asedau gan Emrys ag Elwyn 10.04.25 – yn atodol.

Hefyd mabwysiadu y polisiau eraill – pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth ( sydd ar y wefan)

11. **Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol.**

12. **Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

13..**Adroddiad Elwyn Evans , Cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

**14. Gohebiaeth.**

- Materion mynent Eglwys Llanfihangel y Pennant .
- Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru

15. **Unrhyw fater arall**